PET(4) SAR 02

Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-04-432 **Atal Recriwtio i'r** Fyddin mewn Ysgolion

Ymateb gan Cymdeithas y Cymod

# 'Na' i'r Fyddin Fynychu Ysgolion

## Anerchiad ar risiau'r Senedd, Caerdydd, 14 Tachwedd 2012

**Gan Robin Gwyndaf**
**Is-Lywydd Cymdeithas y Cymod**

**Mae pob bywyd yn sanctaidd. Y mae gan bob person yr hawl i fyw. Ond ymhob rhyfel, y nod ydi dwyn bywyd – lladd. A'r canlyniad? Poen a dioddefaint dibendraw; dryllio teuluoedd a chymunedau.**

Ar daflen Cymdeithas y Cymod yng Nghymru fe sgrifennwyd y geiriau hyn:

> '…wedi miloedd o flynyddoedd o ryfela, mae'r byd [heddiw] yn y cyflwr mwyaf peryglus y bu erioed. Y gred mewn rhyfel sy'n gyfrifol am hyn. Rhyfel yw'r broblem, nid yr ateb.'

Dyna'r neges y dylai plant ysgol ac ieuenctid gael ei chlywed heddiw.  Ond be sy'n digwydd mewn rhai ysgolion yng Nghymru?  Y Fyddin yn cael caniatâd i ymweld â'r ysgolion hynny ac i annog plant i ymuno.

O'r 27 o wledydd yn y Gymuned Ewropeaidd, Prydain ydi'r unig un i ganiatau hyn.  Er bod hynny'n groes i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant.  Ac er bod Prydain ei hun wedi llofnodi'r union Gonfensiwn hwn.  Y fath ragrith!  Y fath sefyllfa dorcalonnus

Y mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad oes a wnelo nhw ddim byd â hyn oll, Llywodraeth Prydain sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn.  Dyna ni, dyna'r drefn.  Ond rydym ni yma heddiw i ddweud wrth bob un aelod o'r Cynulliad **bod** ganddyn nhw gyfrifoldeb.

Y mae ganddyn nhw, mae gan aelodau'r eglwysi, mae gan aelodau pob cymdeithas a mudiad yng Nghymru - mae gan bawb, yn cynnwys ni, ein rhan hollbwysig i sicrhau: yn lle ein bod ni'n hyrwyddo diwylliant rhyfel a thrais, ein bod ni'n hyrwyddo diwylliant heddwch a chyfiawnder.

Wrth gwrs, bydd y Fyddin yn dadlau nad ydyn nhw mewn gwirionedd yn recriwtio; dim ond addysgu y maen nhw.  Hynny ydi, dweud y maen nhw: gyrfa mor anturus ac ardderchog ydi'r Fyddin, ac yn enwedig pan fo cymaint o ieuengtid yn ddi-waith.  Ond a yden ni i gredu hyn?  Fydd rhywun yn sôn wrthyn nhw hefyd am y galon o garreg y mae'n rhaid iddyn nhw ei gael i ladd un o'i cymrodyr ar faes y gâd?  Fydd rhywun yn sôn wrthyn

nhw hefyd am ofn a phryder ac, yn aml, gofid teulu yn aros, ddydd ar ôl dydd i glywed newyddion am eu hannwyl fab neu ferch?  Ac a fydd rhywun yn sôn wrthyn nhw am yr effaith ddirdynnol y mae rhyfel a bywyd yn y fyddin yn gallu'i gael ar bersonoliaeth ac iechyd?

Rydyn ni yma heddiw, felly, i gyflwyno deiseb ac i ddweud mewn llais clir wrth Lywodraeth Cymru am wahardd y Fyddin yn llwyr rhag ymweld ag unrhyw un ysgol yn ein gwlad. Ac yn lle hynny, rydyn ni'n gofyn i'r Llywodraeth sicrhau y bydd astudiaethau cyfiawnder, heddwch a hawliau dynol yn dod yn rhan greiddiol o addysg plant ac ieuenctid Cymru.